I Weinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler isod adroddiad blynyddol Conwy ar gyfer 2016-2017.

| | |
|---|---|
| Y camau gweithredu gaiff eu cymryd i hybu siwrneiau teithio llesol | • Cyhoeddi mapiau llwybrau sy'n bodoli eisoes a sydd wedi eu cymeradwyo ar Wefan y Cyngor<br>• Hyrwyddo ac ymgyrch ymwybyddiaeth yn ymwneud â Theithio Llesol a chymryd rhan mewn ymgynghoriad Map Rhwydwaith Integredig<br>• Hyrwyddo a darparu posteri ymwybyddiaeth i adeiladau'r cyngor lle caiff y cyhoedd fynediad<br>• Ymgyrch ymwybyddiaeth Teithio Llesol ar y cyfryngau cymdeithasol<br>• Erthygl yng nghyhoeddiad y wasg rhad ac am ddim y Fwrdeistref Sirol yn hyrwyddo Teithio Llesol<br>• Addysg a hyfforddiant i blant mewn ysgolion fel rhan o raglen Beicio Diogel<br>• Hyrwyddo Teithio Llesol mewn digwyddiadau cyhoeddus lleol drwy drelar Diogelwch Ffyrdd yr awdurdod<br>• Sesiynau hanner diwrnod yn y dosbarth gyda Sustrans yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan<br>• Digwyddiadau ½ diwrnod i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth mewn llyfrgelloedd fel rhan o broses ymgynghori Teithio Llesol<br>• Cyflwyniadau i Gymdeithas y Cerddwyr, Cynghorau Tref/Cymuned, grwpiau anabledd, Cynghorwyr. |
| Y camau gweithredu a gymrwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig | • Creu croesfan Twcan newydd a gwelliannau cysylltiedig i lwybr troed ar lwybr Teithio Llesol i ysgol yn Neganwy.<br>• Creu ynysoedd newydd i gerddwyr a gwelliannau i groesfan ar yr A546 yn Neganwy.<br>• Cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi ei sicrhau ar gyfer cynllunio a chreu isadeiledd Teithio Llesol ar gyfer llwybr i ysgol ym Mae Penrhyn rhwng 2017 a 2019.<br>• Cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi ei sicrhau ar gyfer pwrcasu tir ar gyfer Isadeiledd Teithio Llesol ar gyfer llwybr i ysgol yn Llanddulas yn 2017/18, ar gyfer ei adeiladu yn 2018/19.<br>• Gofynion canllawiau dylunio Teithio Llesol wedi eu hymgorffori ym mhrosesau Rheoli Datblygu Priffyrdd. |

| | |
|---|---|
| Y costau yn sgil llwybrau Teithio Llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau i lwybrau teithio llesol sy’n bodoli eisoes a’r cyfleusterau cysylltiedig yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol | • Creu croesfan Twcan newydd a gwelliannau cysylltiedig i lwybr troed ar lwybr Teithio Llesol i ysgol yn Neganwy (£163,000)<br>• Creu ynysoedd newydd i gerddwyr a gwelliannau i groesfan ar yr A546 yn Neganwy (£112,000) |

Yn ychwanegol i’r uchod (dewisol):

| | |
|---|---|
| Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau Teithio Llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau i lwybrau Teithio Llesol sy'n bodoli eisoes a chyfleusterau cysylltiedig a gaiff eu hariannu neu a arianwyd yn rhannol gan drydydd parti. | • Ffordd Abergele, Bae Colwyn (gyferbyn â Pharc Eirias) – 3 o ynysoedd croesi i gerddwyr ar CBWR1 (swm anhysbys wedi ei ariannu gan y datblygwr)<br>• Ffordd Bangor / Parc Cambria, Conwy – 2 groesfan gyffwrdd wedi eu darparu ar CONWR1 (swm anhysbys wedi ei ariannu gan y datblygwr)<br>• Ffordd y Foryd / Sandy Cove – 2 groesfan gyffwrdd wedi eu darparu ar lwybr troed ar KWR4 (Swm anhysbys wedi ei ariannu gan y datblygwr)<br>• Ffordd Conwy (rhwng Trem Yr Afon a Richard Williams Ltd), Cyffordd Llandudno – Ailosod a gwella 8 o groesfannau cyffwrdd, gwella dyluniad 2 ffordd feicio, ar LLJWR2 (swm anhysbys wedi ei ariannu gan y datblygwr)<br>• Augusta Street, Llandudno – 4 croesfan gyffwrdd wedi eu darparu ar DUDNOWR2b (swm anhysbys wedi ei ariannu gan y datblygwr)<br>• Vaughan Street, Llandudno – 2 groesfan gyffwrdd wedi eu darparu ar DUDNOWR2B (swm anhysbys wedi ei ariannu gan y datblygwr)<br>• Vaughan Street / Oxford Road, Llandudno – 2 groesfan gyffwrdd wedi eu darparu ar DUDNOWR2B (swm anhysbys wedi ei ariannu gan y datblygwr)<br>• Ffordd Penmaenmawr, Llanfairfechan – 4 croesfan gyffwrdd wedi eu darparu ar LWR2 (swm anhysbys wedi ei ariannu gan y datblygwr)<br>• Ffordd Bangor – 2 groesfan gyffwrdd wedi eu darparu ar PENWR1a (swm anhysbys wedi ei ariannu gan y datblygwr) |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| |

Rwy’n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi arlein ac y bydd ar gael ar ffurf copi caled ar gais, yn unol â’r Canllawiau Darparu statudol.



Y Prif Weithredwr